# Cylchlythyr CorCenCC

# Rhifyn 6: Medi 2016

Corpws Cenedlaethol Cymraeg Cyfoes
National Corpus of Contemporary Welsh



## Cyfarchion gan y Prif Ymchwilydd



*Croeso i 6ed rhifyn cylchlythyr CorCenCC, sy'n golygu erbyn hyn fod 6 mis o'r prosiect wedi mynd yn swyddogol (neu 1/7 o'r ffordd trwyddo)! Cyfarfu aelodau'r CPT ar 5ed Medi i ystyried cynnydd ac i gynllunio'r gwaith ar gyfer y 12 mis nesaf – mae llawer o bethau cyffrous ar y gweill! Cewch y newyddion diweddaraf am y rhain maes o law. Yn rhifyn y mis yma, cewch y diweddaraf am beth o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar Becyn Gwaith 4 (WP4) – gan ganolbwyntio'n benodol ar arolwg a ddatblygwyd ar gyfer athrawon a thiwtoriaid Cymraeg gyda'r nod o gael syniad clir o'r math o offer pedagogaidd penodol y dylem eu creu i sicrhau bod y pecyn cymorth pedagogaidd yn ddefnyddiol i chi a'ch dysgwyr. Mynnwch gip a helpu'r tîm trwy rannu eich barn am hyn! Hefyd gallwch ddarllen am bapurau cynhadledd CorCenCC a gyflwynwyd yn Siapan yn ddiweddar ac achub ar y cyfle i ddysgu ychydig bach mwy am aelod arall o dîm CorCenCC – rhown ein sylw y mis yma i Mair Rees o Brifysgol Abertawe.*


*Mwynhewch! Dr Dawn Knight (Prifysgol Caerdydd)*

## Ysgoloriaeth PhD CorCenCC Prifysgol Abertawe

Mae Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau ym Mhrifysgol Abertawe yn cynnig ysgoloriaeth PhD sydd ynghlwm wrth brosiect CorCenCC. Maen nhw'n chwilio am ymgeisydd addas i weithio gyda thîm y prosiect gan ganolbwyntio ar elfen y pecyn cymorth pedagogaidd yn ogystal â chyfrannu at ddatblygiadau eraill ar y prosiect. Unwaith y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn y swydd, trafodir union destun yr ymchwil gydag aelodau tîm Abertawe. Gellir cael gwybodaeth bellach a ffurflen gais yn: http://tinyurl.com/h3rqlgt

Mae angen i'r ceisiadau gael eu derbyn erbyn 15 Hydref 2016 – gofynnir i chi annog unrhyw un a all fod â diddordeb i wneud cais neu i gysylltu â Steve Morris yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe (s.morris@abertawe.ac.uk) yn y lle cyntaf.

## Offer dysgu/addysgu – angen adborth athrawon a thiwtoriaid!




Mae corpora yn adnoddau tra defnyddiol ar gyfer ystod eang o feysydd, gan gynnwys geiriaduraeth, ymchwil, cyhoeddi a chyfieithu. Ond un o'r pethau mwyaf arloesol am CorCenCC yw'r ffaith y bydd offer arbennig ar gyfer maes penodol – sef maes dysgu/addysgu'r Gymraeg – ar gael i gyd-fynd â phrif offer y corpws o'r cychwyn cyntaf.

Gall corpora ddangos y geiriau, ymadroddion a phatrymau mwyaf cyffredin mewn iaith. Gallan nhw ddangos pa eiriau sy'n tueddu i gyd-fynd â'i gilydd, a pha rai sy'n codi ym mha fathau o destun (e.e. testunau ysgrifenedig ffurfiol, sgyrsiau llafar, e-byst proffesiynol, a negeseuon testun personol). Gall defnyddwyr corpws


chwilio am eiriau penodol a'u gweld nhw mewn brawddegau enghreifftiol. Mae corpora, felly, yn ffynonellau gwybodaeth iaith ardderchog i'w hychwanegu at ddeunyddiau dysgu eraill.

Nod Pecyn Gwaith 4 (WP4) yw datblygu cyfres o offer pwrpasol i'w defnyddio y tu mewn a'r tu allan i ddosbarthiadau Cymraeg, o'r ysgol gynradd i addysg oedolion. Dros y flwyddyn nesaf, bydd aelodau tîm WP4 yn ymgymryd ag arolwg (gan gynnwys holiaduron a grwpiau ffocws) i archwilio pa offer a fyddai'n arbennig o ddefnyddiol i ddysgwyr ac addysgwyr Cymraeg. Mae holiadur cyntaf yr arolwg yn holi athrawon a thiwtoriaid am eu blaenoriaethau ar gyfer adnoddau dysgu/addysgu'r dyfodol, a dosbarthwyd yr holiadur i nifer o diwtoriaid ac athrawon Cymraeg yn ystod cynadleddau ym mis Gorffennaf. Erbyn hyn mae fersiwn ar-lein ar gael, er mwyn cyrraedd cynulleidfa ehangach o athrawon a thiwtoriaid ar draws Cymru. Mae croeso mawr i chi rannu'r linc ag unrhyw diwtoriaid/athrawon Cymraeg yr ydych chi'n eu hadnabod: http://arolwg.corcencc.cymru/holiadur/holiadur-i-addysgwyr/. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r holiadur hwn yw 30 Medi 2016. Diolch yn fawr iawn!

## Cynadleddau a digwyddiadau


Ar 8fed Medi cyrhaeddodd Dawn Knight, Steve Morris a Tess Fitzpatrick Tokyo ar gyfer deg diwrnod o fynychu cynadleddau a seminarau lle cyflwynon nhw gyfanswm o un ar ddeg o bapurau, posteri a cholocwia.

### *Seminar JALT, 9fed Medi 2016*



Y digwyddiad cyntaf gyda'r nos oedd yng Nghangen Tokyo o Gymdeithas Siapan er Addysgu Ieithoedd (JALT). Arwyddair JALT yw "Dysgu i addysgu, addysgu i ddysgu", ac mae'r gymdeithas yn hyrwyddo rhagoriaeth mewn addysgu ieithoedd ac ymchwil ymhlith ei 3000+ o aelodau yn Siapan; mae'r ffaith fod athrawon amser llawn yn fodlon treulio nos Wener mewn seminarau ymchwil yn tystio i'w llwyddiant! Cynhaliwyd y digwyddiad yn yr Athrofa Iaith Americanaidd ar 22ain lawr Tŵr Shinagawa Intercity yng nghanol Tokyo. Roedd y golygfeydd yn syfrdanol. Yn gyffredin i'r tri chyflwyniad oedd y thema "geirfa", a bwriodd Steve ati'n gyntaf gydag araith am sut y gall ieithoedd heb fawr o adnoddau fel y Gymraeg lunio rhestri geiriau pedagogaidd yn dilyn egwyddorion penodol heb gymorth rhestri amlder ar sail corpws. Wedyn, fe gyflwynodd brosiect CorCenCC a gysylltodd yn daclus ag araith Dawn ar arloesi diweddar ym maes creu ac archwilio corpora, lle amlinellodd ddatblygiadau posibl o ran dyfodol astudio ieithoedd ar sail corpws. Yn araith olaf y noson, cyflwynodd Tess gyfres o brofion sy'n defnyddio rhestri amlder ar sail corpws i asesu gwybodaeth dysgwyr o eirfa gynhyrchiol a chyflwynodd hi fodel o 'ddal' trwy brofion geirfa a all gael ei ddefnyddio i gefnogi athrawon wrth ddethol a dehongli profion geirfa addas i'r diben.




### *PacSLRF, 10fed-11eg Medi 2016*

Treuliwyd y ddau ddiwrnod nesaf yn PacSLRF, Fforwm Ymchwil Ail Iaith y Môr Tawel, a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Chuo ar gyrion Tokyo. Mae PacSLRF, a sefydlwyd yn 1991, yn canolbwyntio ar ymchwil empirig a damcaniaethol ym maes caffael ail iaith (SLA). Defnyddiodd llawer o'r areithiau ddull seico-ieithyddol o ran ymchwilio i brosesu iaith, neu ystyriwyd goblygiadau theorïau prosesu ar gyfer addysgu a dysgu iaith; prif thema arall oedd prosesu dwyieithog. Roedd CorCenCC, a gyflwynwyd trwy gyflwyniad poster Dawn, Steve a Tess "Creating Pedagogical Wordlists: A Comparison of Thematic and Corpus Approaches", yn cydblethu'n dda gyda thema'r gynhadledd, sef "Data a damcaniaethau mewn ymchwil Caffael Ail Iaith", a denodd ddiddordeb



ymchwilwyr a oedd yn ymddiddori mewn dysgu ar sail data, casglu ar gyfer corpora, a hybu ieithoedd llai eu defnydd – yn ogystal â'r sawl oedd ag atgofion melys am ymweliadau astudio â Chymru! Yn ogystal â hynny, cynrychiolwyd Cymru yng ngholocwiwm Prifysgol Caerdydd ar adalw geirfa a gyflwynwyd gan Tess Fitzpatrick a thri myfyriwr PhD cyfredol: Dale Brown, John Racine (y ddau wedi'u lleoli yn Siapan), a Peter Thwaites (sy'n byw ac yn gweithio yng Nghorea).

### *Cynhadledd Vocab@Tokyo – Prifysgol Meiji Gakuin, Tokyo 12fed-14eg Medi 2016*

Y gynhadledd olaf yn Tokyo oedd Vocab@Tokyo ar gampws mwy traddodiadol Prifysgol Meiji Gakuin. Cynhaliwyd y gynhadledd hon yn sgil y gynhadledd Vocab@ lwyddiannus gyntaf yn Victoria, Seland Newydd yn 2013. Yma, y canolbwynt oedd astudiaethau geirfaol gan gynnwys areithiau nodwedd gan Batia Laufer, Diane Schmitt ac ymgynghorydd CorCenCC Tom Cobb. Tess Fitzpatrick, Cyd-ymchwilydd ar y prosiect, oedd prif siaradwr y gynhadledd a gyflwynodd araith ar 'Profiling word retrieval behaviour: Generic patterns and individual differences' a gafodd gymeradwyaeth frwd. Yn nes ymlaen ar yr un diwrnod, ymunodd Tess â Dawn Knight, Steve Morris a Laurence Anthony i roi colocwiwm ar greu a defnyddio CorCenCC.







Un o agweddau cadarnhaol mawr mynychu cynadleddau o'r fath yw eu bod yn rhoi cyfle i ni arddangos y prosiect yn ogystal â siarad ag academyddion o gymunedau ieithyddol eraill. Mae llawer o'r rhain yn gweithio naill ai ar ddatblygu eu corpora eu hunain, gwneud rhestrau geiriau neu wrthdroi shifft ieithyddol o fewn cyd-destunau ieithoedd llai eu defnydd. Roedd y rhain yn cynnwys Daneg, iaith Miyako (yn Siapan) a Mohawk (o'r Unol Daleithiau). Mae helpu, rhannu gwybodaeth a gweithio gyda'r cymunedau ieithyddol gwahanol hyn yn rhan bwysig ac integral o weledigaeth CorCenCC.

## Cwrdd â'r tîm

*Bob mis byddwn yn rhoi sylw i aelod gwahanol o'r tîm CorCenCC estynedig yn ein cylchlythyr. Bydd hyn yn rhoi cyfle i bawb ddweud ychydig wrthych chi am eu cefndir; beth maen nhw am ei weld o CorCenCC a sut maen nhw'n credu y gallai gyfrannu at eu gwaith eu hunain, neu yn fwy cyffredinol, at waith eraill yng Nghymru. Y mis yma mae'r sbotolau ar Mair Rees, sy'n Gynorthwyydd Ymchwil (CY) ar brosiect CorCenCC ym Mhrifysgol Abertawe.*

### *Proffil: Mair Rees*

Rhaid i mi gyfaddef, roedd y dasg o gyflwyno fy hun mewn ychydig eiriau yn fwy o her na'r disgwyl. Y prif reswm am hynny efallai yw'r ffaith fy mod yn ychydig o garthen glytwaith o Gymraes! Mae gennyf ystod eang iawn o ddiddordebau academaidd a phersonol.

Dwi'n hanu o Fforest-fach, ar ochr orllewinol Abertawe yn wreiddiol. Ardal yw honno sydd wedi gweddnewid yn ystod y degawdau diwethaf, o fod yn lle lled wledig, lled Gymraeg i fod yn ganolfan fasnachol Saesneg ei hiaith. Roedd fy nheulu fy hun yn un dwyieithog, fy nhad yn Gymro Cymraeg o'r ardal ac fy mam yn Gymraes ddi-Gymraeg (heblaw am yr ambell 'cwtsh', 'ych-a-fi' a 'dirty mochyn'!) o gyffiniau cosmopolitan dociau Abertawe. O ganlyniad, mae gen i felly o leia dau bersbectif ar



*Chwilio am gyfranwyr i CorCenCC*

bopeth!

Dechreuais fy ngyrfa fel therapydd celf yn gweithio â phobl ag anawsterau dysgu ac ar ddiwedd yr yrfa honno roeddwn yn rheoli gwasanaeth therapïau celf yng Nghaerdydd. Sut bynnag, ar ôl cymryd seibiant o'r gwaith i fagu teulu, teimlais yr ysfa i ddilyn llwybr gyrfaol amgen. Felly dychwelais at fyd addysg i gyflawni BA ac yna PhD yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd. Testun fy nhraethawd doethuriaeth oedd ffuglen Gymraeg gan fenywod sydd hefyd yn amlygu agwedd arall o'm mhersonoliaeth sef fy ffeministiaeth gadarn. Dw i erioed wedi bod ag ofn defnyddio'r hen air 'ff' yna!

Erbyn hyn, mae'n sicr eich bod yn gofyn, 'be diawl sy 'da hyn oll i'w wneud â CorCenCC?' Wel, cwestiwn da. Hyd y gwelaf i, mae fy mhrif ddiddordebau a daliadau yn rhannu tair egwyddor graidd sef, chwarae teg, parch a chydraddoldeb. Cefais fy apwyntio i dîm CorCenCC yn rhannol ar sail fy wybodaeth o faes cyhoeddi Cymraeg (dw i hefyd yn olygydd creadigol i Wasg Gomer). O'm hochr i, gwelais botensial enfawr CorCenCC i fod yn gefn i'r Gymraeg a theimlaf fod ei nodau'n cydseinio â'r egwyddorion sy'n hollbwysig i mi yn bersonol.


*Miss Ystrydeb Gymreig 1963*

Bydd y prosiect yn adlewyrchu pob math o siaradwyr Cymraeg o'r de i'r gogledd, o brifeirdd hyd at ddechreuwyr pur, menywod a dynion, hen ac ifanc. Mae'n brosiect cynhwysol sy'n agored i bawb a thrwy ddefnyddio dulliau torfoli byddwn yn sicrhau fod gan bobl ar lawr gwlad ffordd hwylus o gyfrannu. Wrth ddenu pobl i gyfrannu, y gobaith yw y byddwn hefyd yn annog teimladau o berchnogaeth dros y prosiect, ac yn bwysicach byth efallai, dros yr iaith honno sy'n rhan o'r prosiect. Oherwydd bod CorCenCC yn adlewyrchu iaith pawb, gellir dadlau ei fod hefyd yn cyfreithloni iaith pawb heb feirniadaeth. Mae hynny'n bwysig iawn i genedl lle mae nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg yn teimlo nad yw eu hiaith yn ddigon da. Mae'n amser i ddiosg y cywilydd ac i berchen ar a defnyddio ein Cymraeg heb ofid. Mae potensial CorCenCC i fod yn gronfa ar gyfer datblygu adnoddau iaith cywir a graenus yn y dyfodol yn amlwg, ond gall hefyd gyfrannu at fagu hyder a rhyddhau tafodau'r siaradwyr anfodlon sy'n defnyddio Cymraeg o bob math.

***Mair Rees,*** *mair.rees@abertawe.ac.uk*

## CorCenCC ar-lein

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau'r prosiect hefyd ar gael drwy Facebook www.facebook.com/CorCenCC/; Twitter https://twitter.com/corcencc (gallwch ein trydar @CorCenCC). Gallwch hefyd gysylltu â ni drwy anfon neges i gyfeiriad ebost y prosiect: corcencc@caerdydd.ac.uk neu ewch i'n gwefan, sef: http://sites.cardiff.ac.uk/corcencc/

Mae CorCenCC yn brosiect ymchwil a ariennir gan ESRC/AHRC (Grant Rhif ES/M011348/1). Mae tîm CorCenCC yn cynnwys y **Prif Ymchwilydd** - Dawn Knight; **y Cyd-Ymchwilwyr** - Tess Fitzpatrick, Steve Morris, Irena Spasić, Paul Rayson, Enlli Thomas, Mark Stonelake a Jeremy Evas; **y Cynorthwywyr Ymchwil** - Steven Neale, Jennifer Needs, Mair Rees, Scott Piao a Gareth Watkins; **Ymgynghorwyr** - Kevin Donnelly, Kevin Scannell, Laurence Anthony, Tom Cobb, Michael McCarthy a Margaret Deuchar; **Grŵp Ymgynghorol y Prosiect** – Colin Williams, Karen Corrigan, Llion Jones, Maggie Tallerman, Mair Parry-Jones, Gwen Awbery, Emyr Davies (CBAC-WJEC), Gareth Morlais (Llywodraeth Cymru), Owain Roberts (Llyfrgell Genedlaethol Cymru), Aran Jones (Saysomethingin.com) ac Andrew Hawke (Geiriadur Prifysgol Cymru).

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau am gynnwys y cylchlythyr hwn, cysylltwch â Dr Dawn Knight: KnightD5@caerdydd.ac.uk

Cardiff University Prifysgol Caerdydd · Swansea University Prifysgol Abertawe · Lancaster University · Prifysgol Bangor University · ESRC Economic & Social Research Council · Arts & Humanities Research Council